# YMGYSYLLTU RHYNGWLADOL GWEINIDOGOL

# MEHEFIN 2024

## YMWELIADAU MEWNOL

12 Mehefin

**Ymweliad Llysgennad yr UE i'r DU â Chymru**

Ymwelodd Llysgennad yr UE â Chymru yng nghwmni Llysgennad Awstria ac Uchel Gomisiynydd Cyprus. Yn ystod ei ymweliad gwnaeth gyfarfod â Phrif Weinidog Cymru, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Gymraeg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Trafodwyd yn ystod y cyfarfodydd hyn y berthynas economaidd rhwng Cymru a'r UE, dinasyddion yr UE yng Nghymru, heriau ers Brexit, Cytundeb Masnach a Chydweithrediad yr UE, ffynonellau cyllidi i gymryd lle rhai'r UE, Taith, Horizon Europe, yr economi gylchol, polisi amaethyddol ar ôl Brexit, llywodraethu amgylcheddol, sero net a'r newid yn yr hinsawdd.

## YMWELIADAU ALLANOL

05 Mehefin

**Ymweliad Prif Weinidog Cymru â Normandi**

Teithiodd Prif Weinidog Cymru i Normandi er mwyn nodi pedwar ugain o flynyddoedd ers D-Day ac er mwyn cyfarfod â chyn-filwyr Cymreig

21 Mehefin

**Ymweliad Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Gymraeg ag Ynys Manaw ar gyfer BIC**

Teithiodd Gweinidog yr Economi a'r Gymraeg i Ynys Manaw ar gyfer 41ain Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Trafododd yr Uwchgynhadledd ystod o ddatblygiadau gwleidyddol ac economaidd ar draws y gweinyddiaethau gan gynnwys gwahanol ffyrdd y mae gweinyddiaethau'n datblygu mentrau i wireddu cyfleoedd ynni adnewyddadwy i ysgogi twf economaidd a chefnogi ymdrechion datgarboneiddio.